Bwriedir i'r canllawiau hyn dynnu sylw at yr ystyriaethau allweddol er mwyn hwyluso gwaith effeithiol i gydlynu a rheoli ymchwiliadau lleol i ddigwyddiadau gan Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol.

Trefn Gysylltiedig

P001 Gweithdrefn Cofnodi ac Ymchwilio i Ddigwyddiadau ac Achosion o Salwch Galwedigaethol

Cyflwyniad

Dylai pob ymchwiliad gael ei gynnal gan unigolyn cyfrifol, sydd â gwybodaeth, sgiliau a phrofiad priodol i ymchwilio i ddigwyddiadau – efallai'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch lleol, neu gydweithiwr arall yn y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Wrth bennu a yw unigolion yn gymwys i gynnal ymchwiliadau dylid pwyso a mesur, ymhlith ystyriaethau eraill, eu gwybodaeth am y gweithgareddau a'r gweithdrefnau dan sylw, eu sgiliau casglu a dadansoddi data, a'u profiad o gynnal ymchwiliadau i ddigwyddiadau.

Dylid cynnal ymchwiliad lleol i bob digwyddiad a digwyddiad trwch blewyn ar ôl derbyn ffurflen cofnodi digwyddiad. Bydd lefel a natur pob ymchwiliad yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad a pha mor debygol yw hi y bydd yn digwydd eto. Er eglurder, gellir gwahaniaethu rhwng digwyddiadau, damweiniau a digwyddiadau trwch blewyn gan ddefnyddio'r diffiniadau isod:

**Damwain** = Digwyddiad nas cynlluniwyd sy'n arwain at anaf neu salwch mewn unigolion, neu ddifrod i eiddo, offer, deunyddiau neu'r amgylchedd, neu golli'r pethau hyn.

**Digwyddiad** = Digwyddiad nas dymunwyd sydd wedi achosi, neu a allai fod wedi achosi, difrod, marwolaeth, anaf neu salwch.

> **Digwyddiad Trwch Blewyn** = *Digwyddiad nad yw wedi achosi anaf na difrod, ond a allai fod wedi gwneud hynny.*
>
> Amgylchiad nas dymunwyd: set o amodau neu amgylchiadau a allai achosi anaf neu salwch, e.e. nyrsys nad ydynt wedi'u hyfforddi yn trin a thrafod cleifion trwm.

Digwyddiad peryglus: un o blith llawer o ddigwyddiadau penodol a niweidiol, y dylid eu cofnodi, fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR). Digwyddiadau peryglus - RIDDOR – Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gall y rhain gynnwys e.e. offer codi yn methu neu'n chwalu, neu sylwedd biolegol yn cael ei ryddhau/yn dianc a allai achosi haint neu salwch difrifol ymhlith pobl, neu'r posibilrwydd o hyn yn digwydd.

Mae cynnal ymchwiliadau lleol yn fodd o hwyluso dealltwriaeth ddyfnach o'r peryglon sydd ynghlwm wrth rai gweithgareddau yn y gwaith. Nid yw'n fuddiol yn y pen draw rhoi'r bai ar unigolion, ac mae hefyd yn cynnal y myth nad oes modd osgoi digwyddiadau ac achosion o salwch pan fo'r gwrthwyneb yn wir mewn gwirionedd. Bydd mesurau rheoli sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, ynghyd â goruchwyliaeth a monitro digonol a rheoli effeithiol yn sicrhau bod y gweithgareddau'n ddiogel. Gallai digwyddiad, boed hwnnw'n ddigwyddiad trwch blewyn neu amgylchiad nas dymunwyd, arwain at ganlyniadau mwy difrifol pe bai'n digwydd eto, felly dylai pob ymchwiliad atal digwyddiad tebyg yn y dyfodol drwy roi mesurau ychwanegol neu well mesurau ar waith lle bo hynny'n ofynnol.

Trefn Cofnodi Digwyddiadau

Dylid cynnal ymchwiliadau lleol i ddigwyddiadau yn unol â Threfn Cofnodi Digwyddiadau'r Brifysgol. Mae Trefn Cofnodi Digwyddiadau'r Brifysgol ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/incident-reporting/.

Dylid ymchwilio i bob damwain a digwyddiad, ni waeth pa mor ddifrifol yr oeddent, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosib. Dyma pryd y mae tystion yn cofio pethau orau, ac mae dymuniad pobl i weithredu a rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith ar ei anterth ar ôl digwyddiad niweidiol.

<u>Manteision Cynnal Ymchwiliadau i Ddigwyddiadau</u>

Drwy gynnal ymchwiliad priodol i bob digwyddiad a digwyddiad trwch blewyn, bydd modd i'r Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol:

- Nodi pam neu sut y methodd y mesurau rheoli sydd ar waith a pha welliannau neu fesurau ychwanegol sydd eu hangen;
- Cynllunio a chyflwyno mesurau i atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto;
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu'r asesiadau risg perthnasol;
- Gwella'r trefniadau rheoli risg yn y gweithle yn y dyfodol.

<u>Y Camau Cyntaf</u>

Ar ôl unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad, yr ymateb brys fydd y flaenoriaeth gyntaf. Bydd hyn yn cynnwys cymryd unrhyw gamau brys priodol (e.e. rhoi cymorth cyntaf) a/neu ymdrechion i sicrhau bod yr ardal yn ddiogel.

Ar ôl i ddigwyddiad neu ddigwyddiad trwch blewyn gael ei gofnodi, dylai cydweithwyr ystyried y camau hyn:

- Sicrhau bod y bobl iawn yn rhan o'r ymchwiliad;
- Sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel a chasglu gwybodaeth, mesuriadau, ffotograffau ac ati;
- Casglu dogfennau perthnasol e.e. asesiadau risg, cofnodion cynnal a chadw, cofnodion hyfforddiant, ac ati;
- Dod o hyd i'r achosion a mynd i'r afael â nhw er mwyn atal digwyddiad arall;
- Cyfweld â thystion a chofnodi manylion unrhyw ddatganiadau
- Adolygu'r gofynion o ran cofnodi statudol pellach e.e. RIDDOR.

Ni waeth pwy sy'n gyfrifol am gynnal yr ymchwiliad i'r digwyddiad ym mhob Cyfadran neu Adran Gwasanaethau Proffesiynol, mae'n rhaid i reolwyr perthnasol ac aelodau perthnasol o'r staff yn chwarae rhan lawn drwy gydol y broses.

Dylai pob ymchwiliad fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a fydd yn golygu casglu tri phrif fath o dystiolaeth, sef:

1. Ffisegol – gweddillion, offer, sylweddau, ffotograffau ac ati.
2. Dynol – cyfweliadau, datganiadau tystion ac ati.
3. Dogfennau gwybodaeth – asesiadau risg, gweithdrefnau, cofnodion hyfforddiant, ac ati.

<u>Rhestr Wirio ar gyfer Casglu Gwybodaeth</u>

Bydd natur y wybodaeth sydd ei hangen yn amrywio fel arfer, yn dibynnu ar natur a/neu ddifrifoldeb y digwyddiad, ond dylai cydweithwyr ystyried y cwestiynau isod o leiaf

- Ble a phryd y digwyddodd y digwyddiad niweidiol?
- Pwy gafodd anaf/aeth yn sâl neu a oedd yn rhan fel arall o'r digwyddiad niweidiol?
- Sut y digwyddodd y digwyddiad niweidiol? Nodwch unrhyw offer a oedd yn rhan o'r digwyddiad.
- Pa weithgareddau oedd yn digwydd ar y pryd?
- A oedd rhywbeth anarferol neu wahanol am yr amodau gweithio?


- A oedd gweithdrefnau gweithio diogel ar waith ac a gawsant eu dilyn?
- Pa anafiadau neu salwch, os o gwbl, a achoswyd?
- Os oedd anaf, sut y digwyddodd yr anaf a beth achosodd ef?
- Oedd y risg yn hysbys (e.e. a nodwyd y risg yn yr asesiad risg perthnasol)? Os felly, pam na chafodd ei rheoli? Os nad oedd, pam hynny?
- A wnaeth y modd y trefnwyd y gwaith ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?
- A oedd y gwaith cynnal a chadw a/neu lanhau'n ddigonol? Os nad oedd, esboniwch pam.
- A oedd y bobl dan sylw'n gymwys ac yn addas?
- A wnaeth cynllun y gweithle ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?
- A wnaeth natur neu ffurf y deunyddiau dan sylw ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?
- A wnaeth anawsterau wrth ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?
- A oedd yr offer diogelwch yn addas a digonol?
- A wnaeth amodau eraill ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?

<u>Nodi'r Achosion</u>

Gall digwyddiadau a chanlyniadau niweidiol fod yn ganlyniad i gyfres o fethiannau mewn nifer o feysydd. Nodir isod wahanol gategorïau'r achosion:

1. Achosion uniongyrchol – cyfrwng yr anaf neu'r salwch (e.e. gwrthrych, sylwedd, ac ati);
2. Achosion gwaelodol – gweithredoedd anniogel a/neu amodau anniogel (e.e. gorchudd wedi'i symud, system awyru wedi'i diffodd, ac ati);
3. Achosion sylfaenol – methiant sy'n sail i'r holl fethiannau eraill, yn aml oddi ar safle'r digwyddiad neu ddigwyddiad niweidiol (dim polisi, trefn neu ddogfen ganllaw, diffyg cyfarwyddyd, hyfforddiant neu oruchwyliaeth; diffyg diwylliant diogelwch).

Yn ystod y broses ymchwilio, bydd cydweithwyr yn ceisio nodi ac ymdrin â'r achosion gwaelodol a sylfaenol. Dylai cydweithwyr gofio y gellir priodoli achosion sylfaenol at ei gilydd i fethiannau rheoli, cynllunio a threfnu. Ceir yn Ffigur 1 enghraifft o'r achosion cydgysylltiedig y gellid eu nodi ar ôl i rywun lithro ar bwll bach o olew:




**Ffigur 1**

Ar ôl yr ymchwiliad

Ar ôl pob ymchwiliad, mae'n hollbwysig rhoi'r camau gweithredu a nodwyd ar waith ledled y Cyfadran / Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Nid yw ymchwiliad yn ddiben ynddo'i hun, ond yn hytrach mae'n gam cyntaf i atal digwyddiadau niweidiol yn y dyfodol megis digwyddiadau ac amgylchiadau nas dymunir.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, mae'n rhaid i gydweithwyr sicrhau bod:

- Camau cywiro'n cael eu cymryd;
- Y dysgu'n cael ei rannu;
- Unrhyw welliannau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith;
- Mae manylion yr ymchwiliad i'r digwyddiad, y mesurau a gyflwynwyd, ac unrhyw ddogfennau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad i'r digwyddiad, yn cael eu cadw gyda'r ffurflen cofnodi digwyddiad.

- Cofnodi'r Ymchwiliad

Bydd y wybodaeth a gasglwyd am y digwyddiad yn cael ei chadw ar system gofnodi ar-lein. Cewch rhagor o wybodaeth ynghylch ymchwilio i ddigwyddiadau yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/incident-reporting/investigation/.

Rhagor o Ddeunydd Darllen

I gael rhagor o ganllawiau a gwybodaeth, darllenwch ddogfennau HSG245 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, *Investigating accidents and incidents*, sydd ar gael yma: http://www.hse.gov.uk/pubns/hsg245.pdf.

<u>Atodiad 1: Strwythur yr Ymchwiliad</u>

Mae dogfen HSG245 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch *Investigating accidents and incidents* yn awgrymu'r strwythur isod i sicrhau bod ymchwiliadau i ddigwyddiadau'n cael eu cynnal mewn modd systematig.

**Casglu gwybodaeth**

- archwilio pob llwybr ymchwilio rhesymol;
- amserol;
- strwythuredig, gan nodi'n glir yr hyn sy'n hysbys a'r hyn nad yw'n hysbys, a chofnodi'r broses ymchwilio.

**Dadansoddi**

- gwrthrychol a diduedd;
- nodi trefn yr hyn a ddigwyddodd a'r amodau a arweiniodd at y digwyddiad niweidiol;
- nodi'r achosion uniongyrchol;
- nodi'r achosion gwaelodol, h.y. gweithredoedd yn y gorffennol sydd wedi caniatáu neu wedi achosi amodau/arferion anniogel;
- nodi'r achosion sylfaenol (h.y. trefniadau iechyd a diogelwch y sefydliad a'r rheolwyr – goruchwylio, monitro, hyfforddi, yr adnoddau a neilltuwyd i iechyd a diogelwch, ac ati).

**Mesurau rheoli risg**

- nodi'r mesurau rheoli risg a oedd ar goll, yn annigonol neu na chawsant eu defnyddio;
- cymharu'r amodau/arferion fel yr oeddent â gofynion cyfreithiol, codau ymarfer a chanllawiau cyfredol;
- nodi'r mesurau ychwanegol sydd eu hangen i ymdrin â'r achosion uniongyrchol, gwaelodol a sylfaenol;
- gwneud argymhellion ystyrlon y gellir eu gweithredu. Ond mae argymhellion niwlog fel 'rhaid i weithredwyr ofalu nad ydynt yn cyffwrdd â'r llafnau torri' yn dangos nad yw'r ymchwiliad wedi treiddio'n ddigon dwfn i chwilio am yr achosion sylfaenol.

**Cynllun gweithredu a chyflawni**

- darparu cynllun gweithredu ag amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol);
- sicrhau bod y cynllun gweithredu'n ymdrin yn effeithiol nid yn unig â'r achosion uniongyrchol a gwaelodol ond hefyd â'r achosion sylfaenol;
- cynnwys gwersi y gellir eu rhoi ar waith i atal digwyddiadau niweidiol eraill, e.e. efallai y bydd angen asesu sgiliau a hyfforddiant yn y cymwyseddau mewn rhannau eraill o'r sefydliad;
- rhoi adborth i bawb sy'n rhan o'r broses er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau a'r argymhellion yn gywir, eu bod yn ymdrin â'r materion dan sylw a'u bod yn realistig;
- dylid eu bwydo'n ôl i adolygiad o'r asesiad risg. Mae'r Cod Ymarfer Cymeradwy sydd ynghlwm wrth Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 rheoliad 3 (paragraff 26), yn nodi y dylai digwyddiadau niweidiol sbarduno adolygiad o asesiadau risg;
- cyfleu canlyniadau'r ymchwiliad a'r cynllun gweithredu i bawb sydd angen gwybod;
- cynnwys trefniadau i sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith a'r cynnydd yn cael ei fonitro.

Atodiad 2 – Taflen Grynhoi'r Ymchwiliad

| **Cam 1 Casglu'r Wybodaeth** |
|---|
| 1. *Ble a phryd y digwyddodd y digwyddiad niweidiol?* |
| |
| 2. *Pwy gafodd anaf/aeth yn sâl neu a oedd yn rhan fel arall o'r digwyddiad niweidiol?* |
| |
| 3. *Sut y digwyddodd y digwyddiad niweidiol? Nodwch unrhyw offer a oedd yn rhan o'r digwyddiad.*<br>*H.y. Trefn y digwyddiadau yn arwain at y digwyddiad niweidiol, ac yn union wedi hynny (yn nhrefn amser).* |
| |
| 4. *Pa weithgareddau oedd yn digwydd ar y pryd?*<br>*E.e. Lleoliad, offer/deunyddiau a ddefnyddiwyd, nifer a lleoliad cydweithwyr eraill, ac ati.* |
| |
| 5. *A oedd rhywbeth anarferol neu wahanol am yr amodau gweithio?* |
| |
| 6. *A oedd gweithdrefnau gweithio diogel ar waith ac a gawsant eu dilyn?*<br>*H.y. A oedd dull gweithio diogel ar waith ac a gafodd ei ddilyn, neu a oedd y trefniadau gweithio arferol yn annigonol?* |
| |
| 7. *Pa anafiadau neu salwch, os o gwbl, a achoswyd?*<br>*Cadarnhewch a roddwyd cymorth cyntaf i'r sawl a anafwyd neu a aethpwyd ag ef neu hi i'r ysbyty (a phwy wnaeth hynny).* |
| |
| 8. *Os oedd anaf, sut y digwyddodd yr anaf a beth achosodd ef?*<br>*D.S. Dylech gynnwys y gwrthrych niweidiol a achosodd yr anaf, a'r ffordd y cafodd yr anaf ei achosi.* |
| |
| 9. *Oedd y risg yn hysbys? Os felly, pam na chafodd ei rheoli? Os nad oedd, pam hynny?*<br>*H.y. Asesu risg – a oedd ffynhonnell y perygl a'r canlyniadau posib yn hysbys, ac a gafodd y staff hanfodol wybod?* |
| |
| 10. *A wnaeth y sefydliad a'r modd y trefnwyd y gwaith ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?*<br>*E.e. Safonau goruchwylio a monitro, diffyg sgiliau neu wybodaeth, gweithdrefnau gweithio amhriodol, ac ati.* |
| |
| 11. *A oedd y gwaith cynnal a chadw a glanhau'n ddigonol? Os nad oedd, esboniwch pam.*<br>*H.y. A gyfrannodd cyflwr y gweithle, yr offer a'r cyfarpar at y digwyddiad niweidiol? E.e. peiriant heb ei gynnal a'i gadw'n iawn, amgylchedd swnllyd, deunyddiau wedi'u storio'n wael, ac ati.* |

| |
|---|
| |
| 12. *A oedd y bobl dan sylw'n gymwys ac yn addas?*<br>*E.e. Diffyg cyfarwyddiadau a hyfforddiant, camddealltwriaethau, trin deunyddiau neu offer yn wael, ac ati.* |
| |
| 13. *A wnaeth cynllun y gweithle ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?*<br>*H.y. A gyfrannodd cynllun y gweithle at y digwyddiad niweidiol?* |
| |
| 14. *A wnaeth natur neu ffurf y deunyddiau ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?*<br>*E.e. Deunyddiau trwm a lletchwith, deunyddiau ag ymylon miniog, ysgyrion, ac ati.* |
| |
| 15. *A wnaeth anawsterau wrth ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?* |
| |
| 16. *A oedd yr offer diogelwch yn ddigonol?*<br>*E.e. Offer diogelwch technegol ychwanegol, offer ynysu'r cyflenwad pŵer, offer diogelu personol (PPE).* |
| |
| 17. *A wnaeth amodau eraill ddylanwadu ar y digwyddiad niweidiol?*<br>*E.e. Y tywydd, gweithredoedd bwriadol neu ymyrryd heb awdurdod, cyflenwadau neu offer diffygiol, ac ati.* |
| |
| **Cam 2 Dadansoddi'r Wybodaeth** |
| 18. *Beth oedd yr achosion uniongyrchol, gwaelodol a sylfaenol?*<br>*D.S. Dylech ystyried pob un o'r achosion posib.* |
| |
| **Cam 3 Nodi Mesurau Priodol i Reoli Risg** |
| 19. Pa fesurau rheoli risg sydd eu hangen / sy'n cael eu hargymell?<br>D.S. Ceisiwch ddileu'r risg lle bynnag y bo hynny'n bosib. Pan nad yw hyn yn bosib, ceisiwch ynysu neu leihau'r risg. |
| |
| 20. A oes risgiau tebyg mewn mannau eraill? Os felly, beth a ble? |
| |
| 21. A oes digwyddiadau niweidiol tebyg wedi digwydd o'r blaen? Rhowch fanylion. |
| |
| **Cam 4 Y Cynllun Gweithredu a'i gyflawni** |
| 22. Pa fesurau rheoli risg y dylid eu rhoi ar waith yn y tymor byr a'r tymor hir?<br>D.S. Dylech gynnwys amcanion CAMPUS, a blaenoriaethu'n briodol. |
| |

| |
|---|
| 23. Pa asesiadau risg a gweithdrefnau gweithio diogel y mae angen eu hadolygu a'u diweddaru? D.S. Dylid adolygu asesiadau risg a gweithdrefnau gweithio diogel ar ôl digwyddiad niweidiol. |
| |
| 24. A yw manylion y digwyddiad niweidiol a chanfyddiadau'r ymchwiliad wedi eu cofnodi a'u dadansoddi? A oes unrhyw dueddiadau neu achosion cyffredin sy'n awgrymu bod angen ymchwilio ymhellach? Beth oedd cost y digwyddiad niweidiol? |
| |
| 25. Unrhyw wybodaeth ychwanegol neu berthnasol i'w gynnwys? |
| |